OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1147 (Cy.102)

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Yn ddarostyngedig i eithriadau penodedig neilltuol, mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer trosglwyddo, ar 1 Ebrill 2010, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chyn Gomisiwn Iechyd Cymru i Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 1147 (W.102)

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Welsh Ministers (Transfer of Property, Rights and Liabilities) (Wales) Order 2010

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order provides, subject to certain specified exceptions, for the transfer on 1 April 2010 of property, rights and liabilities of the Welsh Ministers in relation to the former Health Commission Wales to Cwm Taf Local Health Board.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1147 (Cy.102)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2010

*Gwnaed* *30 Mawrth 2010*

*Yn dod i rym* *1 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 11 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), a pharagraff 22 o Atodlen 2 iddi, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2010 a daw i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall–

ystyr "y BILl" ("*the LHB*") yw Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf a sefydlwyd gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009(**2**);

ystyr "cyn Gomisiwn Iechyd Cymru" ("*the former Health Commission Wales*") yw Comisiwn Iechyd Cymru a oedd yn gyfrifol hyd 31 Mawrth 2010 am arfer swyddogaethau comisiynu Gweinidogion Cymru yng Nghymru mewn perthynas â gwasanaethau gofal arbenigol a thrydyddol a restrir yn Atodiad 1 i Gyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009 a wnaed ar 1 Hydref 2009;

(**1**) 2006 p.42.

(**2**) O.S. 2009/778 (Cy.66).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 1147 (W.102)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Welsh Ministers (Transfer of Property, Rights and Liabilities) (Wales) Order 2010

*Made* *30 March 2010*

*Coming into force* *1 April 2010*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 11 and 203(9) and (10) of and paragraph 22 of Schedule 2 to the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**), make the following Order:

**Title, commencement and application**

**1**.–(1) The title of this Order is the Welsh Ministers (Transfer of Property, Rights and Liabilities) (Wales) Order 2010 and it comes into force on 1 April 2010.

(2) This Order applies to Wales.

**Interpretation**

**2**. In this Order unless the context otherwise requires–

"the former Health Commission Wales" ("*cyn Gomisiwn Iechyd Cymru*") means Health Commission Wales which was responsible until the 31 March 2010 for exercising the commissioning functions of the Welsh Ministers in Wales in relation to the specialist and tertiary care services listed in Annex 1 to the Welsh Health Specialised Services Committee (Wales) Directions 2009 which were made on 1 October 2009;

"the HCW office" ("*swyddfa CIC*") means Unit 3a Caerphilly Business Park, Caerphilly, CF83 3ED;

"the LHB" ("*y BILl*") means Cwm Taf Local Health Board established by the Local Health Boards (Establishment and Dissolution) (Wales) Order 2009(**2**); and

(**1**) 2006 c.42.

(**2**) S.I. 2009/778 (W.66).

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 Ebrill 2010; ac

ystyr "swyddfa CIC" ("*the HCW office*") yw Uned 3a Parc Busnes Caerffili, Caerffili, CF83 3ED.

**Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau**

**3**. Yn ddarostyngedig i erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn, mae holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â gweithgareddau cyn Gomisiwn Iechyd Cymru yn cael eu trosglwyddo i'r BILl ac yn cael eu breinio ynddo ar y dyddiad trosglwyddo.

**Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Eithrir**

**4**. Nid yw'r eiddo, yr hawliau a'r rhwymedigaethau a grybwyllir yn erthyglau 3 a 5 yn cynnwys unrhyw un neu ragor o eiddo, hawliau neu rwymedigaethau Gweinidogion Cymru–

(a) mewn perthynas ag un o fuddiannau lesddaliadol swyddfa CIC yn unol â les ddyddiedig 4 Awst 2003 rhwng (1) Anthony Record ac I.P.M SIPP Cyf a (2) Cynulliad Cenedlaethol Cymru; neu

(b) mewn perthynas â chyfarpar neu raglenni technoleg gwybodaeth, systemau ffôn neu lungopïwr yn swyddfa CIC neu o dan unrhyw gontract ar gyfer cyflenwi, defnyddio neu gynnal a chadw unrhyw gyfarpar neu raglenni technoleg gwybodaeth, systemau ffôn neu lungopïwr yn swyddfa CIC.

**Gorfodadwyedd Hawliau**

**5**. Yn ddarostyngedig i erthygl 4, mae unrhyw hawl a oedd, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, yn orfodadwy gan Weinidogion Cymru neu yn eu herbyn mewn perthynas â chyn Gomisiwn Iechyd Cymru yn orfodadwy, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw, gan y BILl neu yn ei erbyn.

**Darparu ar gyfer parhad o ran arfer swyddogaethau**

**6**.–(1) Mae unrhyw beth a wnaed ar neu cyn 31 Mawrth 2010 gan Weinidogion Cymru neu mewn perthynas â hwy ac sy'n ymwneud â chyn Gomisiwn Iechyd Cymru yn cael ei drin fel pe bai wedi ei wneud gan y BILl neu mewn perthynas ag ef.

(2) Bydd unrhyw apêl neu fater arall a oedd ar neu cyn 31 Mawrth 2010 yn cael ei ystyried gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyn Gomisiwn Iechyd Cymru yn cael ei ystyried gan y BILl yn unol ag unrhyw Gyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.

"the transfer date" ("*y dyddiad trosglwyddo*") means 1 April 2010.

**Transfer of Property, Rights and Liabilities**

**3**. Subject to article 4 of this Order, all property, rights and liabilities of the Welsh Ministers relating to the activities of the former Health Commission Wales are transferred to and vest in the LHB on the transfer date.

**Excepted Property, Rights and Liabilities**

**4**. The property, rights and liabilities mentioned in articles 3 and 5 do not include any property, rights or liabilities of the Welsh Ministers–

(a) in relation to a leasehold interest of the HCW office pursuant to a lease dated 4 August 2003 between (1) Anthony Record and I.P.M SIPP Limited and (2) the National Assembly for Wales; or

(b) in relation to information technology equipment or programmes, telephone systems or a photocopier at the HCW office or under any contract for the supply, use or maintenance of any information technology equipment or programmes, telephone systems or a photocopier at the HCW office.

**Enforceability of Rights**

**5**. Subject to article 4, any right that was, immediately before the transfer date enforceable by or against the Welsh Ministers in relation to the former Health Commission Wales is, on or after that date, enforceable by or against the LHB.

**Provision for continuity in the exercise of functions**

**6**.–(1) Anything done on or before 31 March 2010 by or in relation to the Welsh Ministers relating to the former Health Commission Wales is treated as having been done by or in relation to the LHB.

(2) Any appeal or other matter which on or before 31 March 2010 was being considered by the Welsh Ministers in relation to the former Health Commission Wales will be considered by the LHB in accordance with any Directions made by the Welsh Ministers.

**Trosglwyddo dogfennau**

**7**. Bydd yr eiddo ym mhob dogfen (gan gynnwys dogfennau ar ffurf electronig) sydd ym meddiant Gweinidogion Cymru neu o dan eu rheolaeth mewn perthynas â chyn Gomisiwn Iechyd Cymru yn trosglwyddo i'r BILl ac yn cael ei freinio ynddo ar y dyddiad trosglwyddo.

**Transfer of documents**

**7**. The property in all documents (including documents in an electronic form) in possession or control of the Welsh Ministers in relation to the former Health Commission Wales will transfer and vest in the LHB on the transfer date.

*Edwina Hart*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

30 Mawrth 2010

30 March 2010

©h Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.00

W681/04/10 ON